


Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 11: wythnos 29/03/2021

Cynnydd Wythnosol (22 - 29 Mawrth)



Rydym bellach wedi rhoi 360,183 o frechlynnau (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd - golyga hyn fod mwy na hanner poblogaeth oedolion y Bwrdd Iechyd (51%) bellach wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn.

Mae hwn yn gyflawniad gwych i bawb sy'n rhan o'r rhaglen ac rydym am ddiolch i chi i gyd am gael eich brechlyn ar ôl cael eich gwahoddiad.

Hoffem ddymunio Pasg Hapus iawn i chi i gyd. Noder o ganlyniad i Wyliau Banc y Pasg, bydd ein rhifyn nesaf o'r Cylchlythyr Brechu hwn yn cael ei gyhoeddi ar ddydd Mawrth 6 Ebrill.



Clinig brechu cyntaf Cymru mewn mosg yn agor yng Nghasnewydd

Mae mosg Jamia yng Nghasnewydd wedi agor ei ddrysau fel canolfan frechu Covid-19, gymunedol ar ddydd Mawrth (23 Mawrth).

Y mosg oedd y cyntaf yng Nghymru i gael ei ddefnyddio i weinyddu'r brechlyn. Roedd y clinig galw heibio i'r rheiny dros 60 oed yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, ond gobeithiwyd y byddai'n helpu i oresgyn unrhyw betruster i gael y brechlyn ymhlith poblogaeth Fwslimaidd y ddinas.

Tra mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r rheiny sy'n perthyn i'r grwpiau blaenoriaeth perthnasol o fewn y cymunedau hyn, mae achosion lle mae'r brechlyn wedi cael ei wrthod. Gyda Chlinigau megis yr un yma yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol, mae gan bobl leol y cyfle i dderbyn eu brechlyn mewn lleoliad arall, mwy cyfforddus.

Tawelodd Dr Kasim Ramzen, meddyg teulu lleol ac aelod o Muslim Doctors Cymru, feddyliau cleifion bod y brechlyn yn halal ac na fyddai ei gael yn torri'u hympryd Ramadan. Dywedodd fod cael y clinig yn y mosg yn helpu i frechu pobl "nad ydym wedi gallu cael mynediad atynt erioed o'r blaen".

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)

360,183


Cyfanswm y dos cyntaf 271,523

Cyfanswm yr ail ddos 88,660 (hyd at 29/03/2021)


FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 29/03/2021)

Pobl 80 oed a'n hŷn



75-79 mlwydd oed



Pobl 70-74 mlwydd oed



Pobl 65-69 mlwydd oed




Grŵp 6 (Agored i Niwed)



Pobl 60-64 mlwydd oed



Pobl 55-59 mlwydd oed



Pobl 50-54 mlwydd oed



Apwyntiadau

Os ydych chi'n 50 oed neu'n hŷn ac wedi colli eich hapwyntiad neu heb dderbyn eich brechlyn, cysylltwch â ni trwy lenwi'r ffurflen ar ein gwefan: <https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/yn-50-oed-ac-yn-hyn-a-heb-dderbyn-gwahoddiad-ich-hapwyntiad-brechlyn-covid-19/>

Os cawsoch eich dos cyntaf o'r brechlyn Pfizer rhwng 7 Rhagfyr 2020 a 29 Chwefror 2021 ac nad ydych wedi cael eich gwahoddiad am eich ail ddos o'r brechlyn, ewch i: <https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/dos-cyntaf-pfizer-rhwng-07-12-2020-a-28-02-2021-ond-heb-dderbyn-hysbysiad-or-ail-ddos/>

Dylai'r rheiny a gafodd eu dos cyntaf o'r brechlyn Oxford AstraZeneca ddisgwyl cael eu hail dos 11-12 wythnos ar ôl hynny, oni bai bod rhesymau clinigol unigol i gynnig cyfnod byrrach. Bydd y rhaglen yn dechrau cyflwyno apwyntiadau ar gyfer ail ddos yr Astra Zeneca o 27 Mawrth.

Mae'r ffurflen cymhwyster i ofalwyr di-dâl nawr ar gael ar ein gwefan, ewch i <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/unpaid-carers/am-wybodaeth-bellach>.

A yw eich manylion yn gyfredol?

Gwnewch yn siŵr bod gan eich practis meddyg teulu eich manylion cyfredol gan gynnwys eich cyfeiriad a rhif ffôn. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i'ch gwahodd i gael eich brechiad.



Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn. Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosglyddo i eraill.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020>

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

Trefn Brechlynnau

80 oed a hŷn	Meddygfeydd Meddyg Teulu
72-79 oed	Canolfannau Brechu Torfol
70-71 oed	Meddygfeydd
Grŵp 4	Meddygfeydd
65-69 oed	Canolfannau Brechu Torfol
60-64 oed	Canolfannau Brechu Torfol
55-59 oed	Canolfannau Brechu Torfol
52-54 oed	Canolfannau Brechu Torfol
50-51 oed	Meddygfeydd
Yn Gaeth i'r Tŷ	Timau Symudol
Grŵp 6	Meddygfeydd

Chwalu'r Myth #3

Myth: "Nid yw'r brechlynnau yn ddiogel oherwydd cawsant eu datblygu'n gyflym."

FFfaith: I'r gwneuthurwr mae'r diolch am effeithlonrwydd wrth gynhyrchu brechlyn COVID-19, am iddo flaenoriaethu'r datblygiad pwysig hwn.

Cyn cynhyrchu, mae'n rhaid i'r brechlynnau fynd drwy brofion clinigol, sy'n cynnwys gwiriadau diogelwch trylwyr a phroses wedi'i hen sefydlu. Ni chyfyngwyd ar y rhan hon o ddatblygiad y brechlyn; rhoddwyd blaenoriaeth i brosesau cymeradwyo hirfaith dros ddatblygiadau meddygol newydd eraill.

Yn ogystal, mae COVID-19 yn debyg i feirysau corona eraill rydym wedi'u gweld o'r blaen e.e. MERS a SARS, felly roedd ymchwil eisoes ar gael a gyflymodd y broses ddatblygu.